**Rhif: 6**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C16/1686/46/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **06/01/2017** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Tudweiliog** |
| **Ward:** | **Tudweiliog** |
| **Bwriad:** | **Ymestyn safle carafanau teithiol presennol a gosod 11 carafan teithiol ychwanegol gan gynyddur niferoedd o 15 i 26 ynghyd a ail leoli 3 lleiniau carafanau teithiol presennol** |
| **Lleoliad:** | **Ty Isaf, Tudweiliog, Pwllheli, LL538AJ** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATÁU GYDAG AMODAU |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn ar gyfer ymgymryd â gwelliannau i safle carafanau teithiol presennol ynghyd ac ymestyn y safle i weddill y cae gan gynyddu'r niferoedd o garafanau teithiol ar y safle o 15 i 26. Byddai'r carafanau yn cael eu lleoli o amgylch ffin y cae. Fel rhan o'r bwriad byddai 3 llain bresennol yn cael eu hail-leoli rhyw ychydig. Byddai'r gwelliannau yn cynnwys tirlunio ychwanegol a gwella'r cyfleusterau toiled / cawod. Byddai'r cyfleusterau toiled / cawod yn cael eu gwella drwy osod cwt bychan 2.5 medr wrth 1.8 medr gerllaw'r gawod / toiled anabl presennol. Byddai'r cwt yma o orffeniad pren. Mae'r tirlunio i gynnwys atgyfnerthu'r plannu presennol ar y ffin orllewinol a hefyd ar ran deheuol y safle. Byddai'r tirlunio yma yn gymysgedd o ddraenen ddu, draenen wen a chollen.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion ffin ddatblygu pentref Tudweiliog ac o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd. Ceir banc pridd gyda gwrychoedd ar ei ben tua ffin ddwyreiniol, ogleddol a gorllewinol y cae a cheir wal gynnal carreg gyda gwrych a ffens ar y ffin ddeheuol. Mae rhan dde-orllewin y cae yn codi yn eithaf sydyn gyda'r cae wedyn yn lefelu ychydig allan ond fod rhediad o'r gorllewin i'r dwyrain tua phen gogleddol a dwyreiniol y cae. Tua'r gorllewin o'r safle mae ffordd ddosbarth 2 y B4417 yn rhedeg a rhwng y ffordd yma a safle'r cais mae palmant. Mae mynediad o ran dde orllewin y cae i'r palmant ar gyfer defnyddwyr y safle carafanau. Ceir mynediad cerbydol i'r cae oddi ar ffordd ddosbarth 3 sydd wedi ei leoli tua'r dwyrain o'r safle. Mae tri thŷ wedi ei leoli ar ffin ddwyreiniol y safle.

1.3 Derbyniwyd Datganiad Dyluniad a Mynediad a Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais.

1.4 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan ei fod yn ymwneud gyda mwy na 5 carafán.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**
POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU - Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B10 – DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD - Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau

fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B12 GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B22 DYLUNIAD ADEILADAU Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

POLISI B25 DEUNYDDIAU ADEILADU Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI CH33 – DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

POLISI D20 - SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA AC UNEDAU TEITHIOL ESTYNIADAU, LLEINIAU YCHWANEGOL, ADLEOLI A CHYFNEWID Caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau, estyniadau i safleoedd, neu adleoli lleiniau neu gyfnewid llecynnau os yw'r cynnig yn ffurfio rhan o gynllun i sicrhau gwelliannau amgylcheddol a gweledol, a meini prawf eraill sy'n ymwneud ag effaith y datblygiad ar yr ardal leol.

Canllaw Cynllunio Atodol : Llety Gwyliau (Gorffennaf 2011)

Canllaw Cynllunio Atodol, Cyngor Gwynedd: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Tachwedd 2009)

2.4 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon. (Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion sy'n Codi, Ionawr 2017)**

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
TRA 2: Safonau parcio
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PCYFF 1: Meini prawf datblygu
PCYFF 2: Dylunio a siapio lle

PCYFF 3: Dylunio a thirweddu
TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro
PS 16: Gwarchod a neu wella'r amgylchedd naturiol
AMG 1: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig
PS 17: Diogelu a neu wella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau , Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.

2.5 **Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio
Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C13/1232/46/LL - Cais ol-weithredol ar gyfer safle carafanau teithiol gyda 15 llain ynghyd â throsi adeiladau yn doiledau / cawodydd - Caniatáu 28 Mawrth 2014.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi. |
| Uned Drafnidiaeth: | Cadarnhaf nad oes gan yr Uned Drafnidiaeth gwrthwynebiad i'r bwriad. Ffordd at y safle yn ffordd sengl, fodd bynnag mae llecynnau pasio boddhaol yn bodoli ar ei hyd, ac felly tybir y byddai'r cynnydd yn y niferoedd ddim yn cael effaith arwyddocaol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. |
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn. |
| Swyddog Carafanau: | Cyflwyno sylwadau yn cyfeirio at yr angen i ddarparu 1 toiled ychwanegol a cheisio gwahanu gweithgareddau'r safle carafán deithiol oddi wrth weithgareddau'r fferm er atal damweiniau. |
| Swyddog Tân: | Dim sylwadau i'w rhoi am y fynedfa i gerbydau tân a chyflenwad dŵr. |

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daw'r cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- 26 o unedau yn ormodol ar gyfer safle o fewn y pentref.
- Pryderu o ystyried y nifer o safleoedd yn yr ardal y bydd yn dod yn un parc carafanau mawr.
- Materion yn ymwneud gyda sŵn ac aflonyddwch cymdeithasol.
- Materion colli preifatrwydd, gor-edrych a gor-gysgodi.
- Effeithio edrychiad a chymeriad y pentref a golygfeydd o'r mynyddoedd y tu hwnt.
- Croes i CDUG gan y byddai'n peryglu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau oherwydd maint a graddfa'r cynnig.

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Effeithio ar bris eiddo.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad a mwynderau gweledol**

5.1 Mae polisi D20 o GDUG yn caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau ar safleoedd carafanau teithiol presennol fel estyniad, cyhyd a bod y cynnig yn ffurfio rhan o gynllun a fydd yn arwain at welliannau amgylcheddol a gweledol o ran lleoliad, gosodiad, dyluniad a gwedd y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch. Yn ogystal, mae gofyn na fydd y datblygiad arfaethedig tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys datblygiad o'r fath, wrth ystyried unrhyw effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol presennol.

5.2 Mae'r bwriad gerbron ar gyfer ymestyn maint y safle carafanau teithiol presennol ynghyd ac ychwanegu 11 uned deithiol i'r safle. Ymysg y gwelliannau a gynigir mae bwriad i godi adeilad toiled / cawod ychwanegol ynghyd a gwaith tirlunio.

5.3 Byddai cynnydd o 11 uned yn ychwanegiad gymharol fawr i'r nifer. Fodd bynnag, ni ystyrir fod y safle'n amlwg nac ymwthiol yn y dirwedd gan ei fod yn weddol guddiedig o'r ffordd sirol sy'n rhedeg trwy bentref Tudweiliog a'r ffyrdd eraill cyfagos, tu ôl i fanc pridd a gwrychoedd presennol. Mae'r bwriad wedi ei leoli o fewn cae presennol a ganddo ffiniau aeddfed ac nid yw'r ffiniau hyn wedi cael eu creu yn arbennig ar gyfer cyfiawnhau'r cais ond yn hytrach maent yn nodwedd hanesyddol yn y dirwedd. Wrth sefyll yn y cae ei hun gellir meddwl y byddai'r safle yn un gweledol ond oherwydd natur llethr y cae mae'r safle yn un eithaf cuddiedig. Yn bresennol mae rhai mannau yn arbennig ar y ffin orllewinol ble gellir atgyfnerthu'r tirlunio presennol. Fel rhan o'r cais bwriedir plannu yn ychwanegol ar y ffin yma gyda phlanhigion draenen wen, draenen ddu a chollen. Bwriedir gwneud hyn trwy blannu ail res o blanhigion ar hyd y ffin orllewinol yma. Bwriedir hefyd atgyfnerthu'r plannu tua de'r safle gyda chyfuniad cyffelyb o blanhigion a fwriedir i'r ffin orllewinol. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i

ansawdd gweledol y dirwedd. Mae cryfhau'r tirlunio presennol i'w werthfawrogi ac ystyrir y byddai hynny yn unol gyda Pholisi B27 CDUG. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad o ymestyn y safle o ran ei arwynebedd a'i niferoedd yn debygol o greu nodwedd ymwthiol nac amlwg yn y dirwedd sydd o fewn dynodiad Ardal Gwarchod y Dirwedd.

5.4 Fel rhan o'r gwelliannau gofynnir am adeiladu adeilad pren bychan sy'n mesur oddeutu 2.5 medr wrth 1.8 medr i greu toiled / lle ymolchi ychwanegol. Byddai'r adeilad yma yn cael ei leoli gerllaw toiled/ cawod anabl bresennol. Mae'r lleoliad yma yn un anymwthiol yn y dirwedd ac mae'r adeilad a fwriedir yn dderbyniol o ran ei leoliad, dyluniad a maint. Mae'r safle presennol yn gweithredu rhwng 1 Mawrth a 1 Hydref mewn unrhyw flwyddyn a byddai'r un cyfnod yn berthnasol i'r unedau newydd.

5.5 O asesu'r bwriad yn erbyn gofynion polisi D20, credir bod yr estyniad a'r lleiniau ychwanegol o ran eu lleoliad, gosodiad, dyluniad a gwedd yn debygol o integreiddio a chymhathu i'r safle a'i dirwedd. Nid yw'r safle'n amlwg nac yn ymwthiol yn y tirlun a ni ystyrir y byddai ardrawiad niweidiol o ran mwynderau gweledol y cyffiniau nac ar yr Ardal Gwarchod y Dirwedd. Byddai'r tirlunio a newidiadau arfaethedig yn welliannau amgylcheddol fyddai'n gwella gwedd a chyfleusterau'r safle yn ei gyfanrwydd. Ystyrir hefyd fod hwn yn safle sydd yn agos a chyfleus o ran mynediad i'r rhwydwaith ffyrdd gan ei fod wedi ei leoli oddeutu 45 medr oddi wrth ffordd sirol trydydd dosbarth. Er bod ambell faes carafanau teithiol arall ar gyrion Tudweiliog, nid yw'r bwriad yn mynd tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys datblygiad o'r fath wrth ystyried effaith gronnol safleoedd presennol yn yr ardal. Ystyrir felly fod estyniad i'r safle, cynnydd mewn niferoedd, y tirlunio a'r cyfleusterau newydd arfaethedig yn cydymffurfio a gofynion polisïau B10, B22, B25, B27 a D20 CDUG.

5.6 Lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Enlli. Mae Polisi B12 yn datgan y rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth am y tirweddau hanesyddol pan asesir effaith cynigion sydd ar y fath raddfa ac mor fawr fel y byddent yn cael effaith fwy nag effaith leol arnynt. O ran ei leoliad a'i faint ystyrir mai yn lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Felly, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i Bolisi B12 CDUG.

5.7 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001 - 2016) yw'r 'Cynllun Datblygu' ar hyn o bryd a bydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) yn disodli'r CDU fel y 'cynllun datblygu' ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Y gobaith yw y bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn ystod Gorffennaf 2017.

5.8 Wrth ddelio gydag unrhyw gais cynllunio y prawf statudol ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf ar bob achlysur, h.y. mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Mae'r CDLl ar y Cyd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol rŵan ar gyfer diben rheoli datblygu - gweler paragraff 3.1.3 Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan:
*"Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisïau mewn cynllun datblygu sydd wrthi'n cael ei baratoi a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Dylai pob cais gael ei ystyried mewn perthynas â pholisïau cyfredol...".*

5.9 Er bod nifer o bolisïau wedi cael eu trafod yn fanwl yn ystod Gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ni fyddwn yn gwybod gyda

sicrwydd beth fydd cynnwys y Cynllun tan fydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad rhwymol.

5.10 Mae paragraff 2.14.1 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan:
*“...wrth ystyried faint o bwys i’w osod ar bolisïau penodol mewn CDLl sydd ar y gweill sy’n berthnasol i gynnig neilltuol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a’r cefndir i’r polisïau. Gall polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn.”*

5.11 Yn yr achos hwn, mae'r Polisïau CDLl a'u rhestrir yn 2.4 uchod yn berthnasol a, gan i'r polisïau hyn fod yn gyson gyda pholisïau’r Cynllun Datblygu Unedol, fe ystyrir bod argymhelliad yr adroddiad hwn yn gyson gyda'r polisi allddyfodol.

**Mwynderau cyffredinol  a phreswyl**

5.12 Mae 3 tŷ annedd wedi ei leoli yn union gerllaw ffin ddwyreiniol y safle. Ceir tai hefyd yng Nghae’r Odyn i’r gorllewin o’r safle ar ochr orllewinol y ffordd sirol y B4417. Derbyniwyd 3 llythyr o wrthwynebiad i’r bwriad gan ddeiliaid tai yng Nghae’r Odyn. Mae banc pridd gyda gwrychoedd ar ei ben wedi ei leoli ar hyd y ffin ddwyreiniol a fyddai’n gymorth i ddiogelu preifatrwydd rhesymol i ddefnyddwyr y tai cyfagos i’r cyfeiriad hynny. Ceir gwrychoedd hefyd ar y ffin orllewinol ac mae bwriad i’w hatgyfnerthu. Ystyrir fod y gwrych yma ynghyd a’r pellteroedd rhwng y safle a’r tai i’r gorllewin yn ddigonol i sicrhau na fydd gor-edrych neu golli preifatrwydd. Yn ychwanegol dylid cofio fod ffordd sirol a phalmant yn gwahanu’r safle oddi wrth y tai i’r gorllewin ac felly fod yna dir cyhoeddus rhwng safle’r cais a’r tai i’r gorllewin. Ni ystyrir y byddai cynyddu’r niferoedd o 15 i 26 yn golygu gor-ddatblygu’r safle nac yn arwain at ychwanegiad mewn traffig fel y buasai’n cael niwed arwyddocaol ar fwynderau lleol. Defnydd tymhorol fyddai i’r safle carafanau ac mi fyddai hynny yn parhau'r un cyfnod ar presennol sef i rhwng 1 Mawrth a 1 Hydref. Yn sgil hyn byddai’r defnydd o’r safle yn un tymhorol ac ni fyddai carafanau wedi eu lleoli ar y tir trwy gydol y flwyddyn. Byddai hyn yn golygu na fyddai dim newid i fwynderau’r trigolion cyfagos y tu allan i’r tymor meddiannu. Mae eiddo'r ymgeisydd wedi ei leoli gerllaw’r safle, ac felly mi fyddai’r perchennog yn byw gerllaw, ac ar gael i reoli’r safle, ac unrhyw sefyllfaoedd o agwedd diogelwch, sŵn, ysbwriel, ymddygiadau anghymdeithasol ac ati a all godi. Felly, er bod y safle yn agos i dai annedd ni ystyrir y byddai’r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau’r gymdogaeth leol ac ystyrir y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi B23 CDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.13 Nid oes angen gwneud newidiadau i’r fynedfa gerbydol bresennol ac mae’r safle wedi ei leoli oddeutu 45 medr o ffordd sirol trydydd dosbarth sydd gyda mynediad i ffordd sirol ail ddosbarth oddeutu 130 medr i ffwrdd. Nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth bryderon am y bwriad i gynyddu’r niferoedd. Ni ystyrir y byddai’r bwriad yn debygol o fod yn niweidiol i ddiogelwch ffyrdd a bod y bwriad felly yn dderbyniol o agwedd polisi CH33.

**Materion Ieithyddol**

5.14 Mae Polisi A2 CDUG yn nodi y dylid gwrthod cynigion a fyddai, oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau. Gan fod y bwriad yn ymwneud gyda datblygiad twristiaeth a fydd yn creu deg neu fwy o unedau gwyliau mae gofyn fod

Datganiad Ieithyddol a Chymunedol yn cael ei baratoi er cydymffurfio gyda gofynion Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Derbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais ac ymgynghorwyd gyda'r Uned Polisi ar y Cyd. Mae sylwadau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn datgan gan fod y cynnig yn gwbl gyfan ar gyfer lleiniau unedau teithiol ar safle sydd eisoes yn bodoli,, ac nid lleiniau parhaol, ni chredir fod natur na graddfa'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith bositif ar economi'r ardal ac felly o fudd i'r iaith Gymraeg ac y byddai'r datblygiad hefyd yn debygol o gyfrannu neu greu cyfleoedd economaidd i bobl leol e.e. ar y safle, mewn siopau a llefydd bwyta lleol, atyniadau lleol. Er mwyn uchafu'r effeithiau positif posibl awgrymir fod mesurau ymyriadau positif yn cael eu hystyried er mwyn gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gall y rhain gynnwys arwyddion dwyieithog ar y safle, darparu gwybodaeth am hanes a diwylliant yr ardal. Awgrymir fod rheolwr y safle yn cysylltu gyda'r Fenter Iaith Leol (HunanIaith) i gael trafodaeth ynglŷn â mesurau a allai ychwanegu gwerth i'r busnes e.e. defnydd o'r Gymraeg wrth hysbysebu'r safle, cymorth ymarferol gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith i fusnesau. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol y gymuned a'i fod felly yn dderbyniol o safbwynt Polisi A2 CDUG.

## 6. Casgliadau:

6.1 Oherwydd graddfa'r cais a'i leoliad ynghyd a'i nodweddion naturiol presennol ni ystyrir fod y safle yn ymwthiol yn y dirwedd ac ni ystyrir ei fod yn debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau gweledol Ardal Gwarchod y Dirwedd. Ni ystyrir y byddai yn amharu ar ddiogelwch ffyrdd nag yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r gymdogaeth leol. O safbwynt sicrhau fod y safle yn cael ei reoli yn gywir ystyrir y gellir sicrhau hyn drwy amodau perthnasol. Disgwylir ymateb yr Uned Polisi ar y Cyd i'r Datganiad Ieithyddol a Chymunedol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau - amodau:

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol â chynlluniau a gyflwynwyd.
3. Nifer o unedau ar y safle ar unrhyw un adeg i'w cyfyngu i 26.
4. Cyfyngu tymor i rhwng 1 Mawrth a 1 Hydref.
5. Defnydd gwyliau yn unig.
6. Cadw cofrestr.
7. Dim storio carafanau teithiol ar y safle.
8. Cyflawni'r cynllun tirlunio.